



CYFRINACHOL

ARSYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG I WEINIDOGION CYMRU AR SAFONAU'R GYMRAEG: YMGYNGHORIAD AR FERSIYNAU DRAFFT SAFONAU'R GYMRAEG AR GYFER AWDURDODAU LLEOL CYMRU, PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU A GWEINIDOGION CYMRU

Sylw rhagarweiniol

Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn cydnabod mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw paratoi safonau i'w cyflwyno ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurf Rheoliadau. Yn ystod 2012 fe wnaeth y Comisiynydd gyflwyno cynigion ynghylch safonau i Weinidogion Cymru. Cafodd y safonau hynny eu gwrthod. Dim ond yng nghyswllt y cynnwys a ddarparwyd ar 6 Mehefin 2013 sef safonau drafft Llywodraeth Cymru y cyflwynir arsylwadau'r Comisiynydd ac nid ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw waith ehangach.

Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac wedi cyflwyno safonau drwy Reoliadau i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd osod hysbysiadau cydymffurfio a gorfodi'r safonau. Yng ngoleuni hynny mae'n hanfodol i hygyrddedd gwaith y Comisiynydd fod yr ymateb hwn, sy'n cynnwys barn y Comisiynydd, yn cael ei drin mewn modd priodol.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae'r amserlen o bythefnos i ymateb wedi bod yn dynn, serch hynny gobeithir y bydd yr adborth hwn ar gynigion cynnar Llywodraeth Cymru o gymorth wrth i swyddogion fynd rhagddi i'w mireinio cyn cynnal ymgynghoriad yn yr haf.

1. **Arsylwadau cyffredinol ar yr ymarferiad ymgynghorol**

Nodir mai'r sefydliadau o fewn cwrdd yr ymarferiad arfaethedig fydd Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru a'r parciau cenedlaethol. Dylid ei gwneud yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai safonau ar gyfer 26 sefydliad yn unig sydd dan sylw.

Ar 10 Mai 2013 ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at y Gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg gan roi gwybod iddo beth oedd blaenoriaethau'r Comisiynydd a'i hamserlen mewn cysylltiad â chynnal ymchwiliadau safonau. Mae'r blaenoriaethau hynny'n cynnwys yr holl ddarparwyr gwasanaeth mawr yng Nghymru. Ar sail ein gohebiaeth at y Gweinidog ar y degfed o Fai ar y pwynt hwn nodwn fod cwrdd yr ymarferiad hwn yn rhy gyfyng a bod y Llywodraeth yn colli cyfle i ddwyn nifer dda o sefydliadau Cymru o dan safonau'r Gymraeg yn fuan.

Dylai dogfen y Llywodraeth wneud sylw ar ei fwriadau at y dyfodol mewn cysylltiad â'r sefydliadau hynny na sydd yn rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig gan egluro pam nad ydynt yn gynnwys y tro hwn a pha bryd y gallant ddisgwyl dod o dan safonau yn ogystal â thrafod effaith gosod safonau ar un set o sefydliadau ar y rhai na fydd yn ddarostyngedig iddynt am beth amser i ddod.

Mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio nad yw'r ymarferiad ymgynghorol arfaethedig yn ymchwiliad safonau ond, ar yr un pryd, mae'n ceisio cael ymatebion i rai o'r materion sydd yn dod o dan yr adrannau sydd yn ymwneud ag ymchwiliadau safonau (fel y'i disgrifir yn Mesur y Gymraeg). Yn gyfreithiol, dim ond y Comisiynydd all gynnal ymchwiliad safonau felly ni fydd ymgynghoriad y Llywodraeth yn diwallu nac yn cyfrannu tuag at swyddogaeth ymchwiliadau safonau os bydd y Comisiynydd yn cynnal un yn y dyfodol. Mae angen egluro hyn yn ac, ar yr un pryd, esbonio beth fydd y camau nesaf yng nghyswllt unrhyw ymgynghori statudol pellach fel bod y broses a'r sefyllfa gyfreithiol yn glir i bawb perthnasol o'r cychwyn.

Bydd gan Weinidogion Cymru yr hawl i benderfynu pa safonau sydd yn benodol gymwys iddynt eu hunain oherwydd hynny dylai'r broses ymgynghori yn achos Gweinidogion Cymru fod yn gwbl dryloyw.

2. **Arsylwadau ar y safonau o safbwynt y Memorandwm Esboniadol a Mesur y Gymraeg**

Mae sylwadau'r adran hon yn ystyried potensial y safonau drafft arfaethedig i wireddu amcanion polisi Gweinidogion Cymru ac yn cynnig barn ar y graddau mae'r safonau'n cyd



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

fynd â disgwyliadau Mesur y Gymraeg.

- (i) Cryfhau'r elfen gydymffurfio, sicrhau cysondeb, ansawdd a chyflenwi gwasanaethau mewn modd teg

Wrth i Weinidogion Cymru arfer ei swyddogaethau o dan Adran 26 (1) (e) gan bennu safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â safonau penodedig eraill, bydd gofyn i'r safonau hynny adlewyrchu a bodloni anghenion y Comisiynydd yn ei rôl fel Rheoleiddiwr. Wrth i safonau ddod i rym a'r pwerau gorfodi yn eu sgil, bydd disgwyliadau'r cyhoedd yn codi, ynghyd â'r disgwyliadau fydd ar y Comisiynydd i wybod sut mae cyrff cyhoeddus yn gwneud yng nghyswllt safonau. Golyga hyn y bydd rhaid i'r safonau cadw cofnodion a geir yn nogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru adlewyrchu'r safonau penodedig eraill, ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno tystiolaeth ddibynadwy ar gydymffurfiaeth, i alluogi'r Comisiynydd i ddod i gasgliadau pendant ar gydymffurfiaeth, ac yn sgil hynny ei gallu i gymryd camau gorfodi, yn unol â Rhan 5 y Mesur. Nid oes cynigion ynghylch safonau cadw cofnodion ymysg y safonau. Dim ond ar ôl derbyn y cynigion drafft y bydd hi'n bosibl ffurfio barn ar eu digonolrwydd.

- (ii) Cydnabod amrywiaeth ieithyddol ar draws Cymru, cadw hyblygrwydd a gweithredu'r disgwyliad y bydd safonau'n tyfu allan o ofynion cynlluniau iaith

Yn y cyswllt hwn rhaid yw llunio safonau ar sail tystiolaeth ac ymgynghoriad. Mae'r ymateb hwn, o fewn yr amser a gafwyd, wedi cynnwys gwaith mapio o ymrwymadau cyfredol a rhai hanesyddol. Fe ystyriwyd safonau arfaethedig y Llywodraeth yn erbyn ymrwymiad cynlluniau iaith cyfredol rhai o'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Nid oedd yr amserlen ymateb yn caniatáu adolygiad manwl o'r holl gynlluniau iaith, felly yn hytrach fe ystyriwyd pum cynllun iaith er mwyn cael cipolwg a chymhariaeth o'r ymrwymadau yn erbyn y safonau. Ystyriwyd ymrwymadau cynllun iaith y Llywodraeth a hefyd cynlluniau iaith rhai o'r awdurdodau lleol a fyddai'n debygol o fod gyda'r ymrwymadau isaf. Y bwriad gyda hynny oedd y byddai'n caniatáu i ni adnabod safonau ble nad oedd y gofynion a'r ymrwymadau yn y cynigion yn ddigon uchel. Gwelwyd fod rhai safonau'n gosod gofyniad is law'r trothwy presennol. Amlygwyd problemau penodol gyda natur gofynion y safonau 16, 27, 33 – 45, 70 a 75. Bydd gofyn i'r Llywodraeth ail ymweld â'r safonau hyn i gyd. Ceir manylion llawn ar y materion hyn yn atodiad 1.

Nid yw'r safonau yn eu ffurf gyfredol yn cwrdd nod polisi'r Llywodraeth gan fod rhai o'r safonau a'r lefelau'n rhy iselgeisiol.

- (iii) Creu hawliau clir i ddefnyddwyr y Gymraeg

Mae'n bwysig nodi mai'r unig gyfeiriadau at yr ymrwymiad hwn, fel datganiad cyfreithiol o fewn y Mesur, yw'r cyfeiriadau yn Adran 1(2)a) ac Adran 3(3)b). Mae Adran 1(2)b) yn ddatgan bod statws swyddogol y Gymraeg i gael effaith cyfreithiol trwy ddeddf 'ynghylch': *“...dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ymwneud y*



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

cyrff hynny â hwy (megis darparu gwasanaethau gan y cyrff hynny)” Mae Adran 3(3)b hefyd yn defnyddio geirfa debyg i osod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi sylw i'r materion uchod wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae'r safonau wedi eu geirio o safbwynt y sefydliad ac nid ydynt yn ddefnyddiwr ganolog. Dylai'r Llywodraeth ystyried i ba raddau mae'r safonau arfaethedig yn sicrhau bod sefydliadau'n gynyddol ddod i ddeall anghenion eu dinasyddion (drwy ymgynghori/adborth/dadansoddi) ac i ddiwallu anghenion eu dinasyddion. Yn ystod yr ymgynghoriad arfaethedig dylid gofyn i siaradwyr Cymraeg a ydynt o'r farn bod y safonau'n rhoi eglurder iddynt o ran eu hawliau fel siaradwyr Cymraeg, dylid holi eu barn ynghylch y dyletswyddau sydd ar y sefydliad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg iddynt, y prosesau fydd yn orfodol i sefydliad eu mabwysiadu er mwyn gwella eu gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg iddynt ac yn sgil hynny, wella eu profiadau fel defnyddwyr. Cynigir nodyn polisi yn rhoi pwyslais ar lais y defnyddiwr yn atodiad 3. Mae angen ail ddrafftio'r safonau yn unol â'r pwyntiau gaiff eu gwneud yn y nodyn hwnnw.

Dygir sylw penodol at enghreifftiau o safonau sy'n peri pryder i Gomisiynydd y Gymraeg gan nad ydynt yn amlygu hawliau eglur. Mae'r enghreifftiau fel a ganlyn:

Sefydlu hawliau eglur a gwelliant dros amser - Yn unol ag adrannau 28-32 y Mesur, creir hawl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod ar sefydliad safon sy'n hybu neu'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu sy'n gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae nifer o safonau (e.e. 5, 6, 48, 51) yn gosod dyletswydd i gyflenwi gwasanaeth yn Gymraeg lle fo'r gwasanaeth yn ymwneud â meysydd gwasanaeth penodol e.e. plant a phobl ifanc, amaethyddiaeth, diwylliant. Rhoddir rhwydd hynt i sefydliadau beidio hybu, hwyluso neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau o fathau eraill e.e. treth cyngor. Nod y Mesur yw creu hawliau eglur o ran gwasanaethau Cymraeg. Ni welir sut bydd y safonau hyn yn arwain hynny na welliant cyffredinol dros amser.

Dyletswyddau amodol - Mae'r ddyletswydd i gydymffurfio â rhai safonau (e.e. 6, 48, 51, 52) yn amodol ar ganran y boblogaeth a wasanaethir sy'n siarad Cymraeg, yn ôl ffigurau'r cyfrifiad diwethaf, neu ar nifer y personau sydd wedi nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd y safonau hyn yn creu hawliau eglur o ran gwasanaethau yn Gymraeg. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y safonau hyn yn arwain at welliant cyffredinol dros amser. Gallent arwain at lai o ddyletswyddau ar sefydliadau dros amser yn ddibynnol ar ganlyniadau'r cyfrifiad.

Ymwneud â sefydliad yn Gymraeg ar lafar – Mae rhai safonau (e.e. 19, 20, 24, 25, 27, 35, 38, 41, 44) sy'n ymhél â gwasanaethau llafar yn caniatáu i sefydliadau beidio darparu gwasanaeth llafar Cymraeg ac i ofyn i bersonau gysylltu'n ysgrifenedig y Gymraeg. Mae'r Mesur yn datgan y dylai safonau osod dyletswyddau i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ymwneud sefydliadau â hwy. Nid yw'r safonau hyn yn bodloni gofynion cyfreithiol y Mesur.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Eglurder safonau - ymhelaethir ar ystyr rhai safonau o fewn troednodiadau (e.e. 58, 67, 70). Nid yw'n eglur a fydd y dyletswyddau / amodau yn y troednodiadau wedi eu cynnwys yn y safonau terfynol. Mae'r dyletswyddau / amodau mewn rhai troednodiadau yn mynd yn groes i egwyddorion y Mesur.

Cyhoeddiadau a ffurflenni – lle fo dilyn system sgorio ar gyfer cyhoeddiadau / ffurflenni yn arwain at benderfyniad i beidio cyhoeddi yn Gymraeg, ni roddir unrhyw ddyletswydd ar sefydliad dan y safonau perthnasol (e.e. 68, 70). Yn y sefyllfa hon, nid yw'r safon yn hybu nac yn hwyluso, nac ychwaith yn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn awr nac yn y dyfodol. Nid yw'r safon yma felly yn llwyr gyflawni ystyr safonau cyflenwi gwasanaethau.

Rhaid i'r safonau gyflawni'r dyletswydd cyfreithiol i siaradwyr Cymraeg. Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn credu fod rhai o'r safonau yn rhoi 'hawliau' i siaradwyr Cymraeg gan nad yw rhai safonau, yn hybu defnyddio'r Gymraeg, neu'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu'n gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(iv) Diffiniadau cyfreithiol y 5 dosbarth safonau

Lle mae'r geiriad yn adlewyrchu Mesur y Gymraeg nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn rhagweld unrhyw anawsterau cyfreithiol yn codi o'r diffiniadau gynigir ar ddechrau'r adrannau yn ymhél â safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau hybu a safonau cadw cofnodion. Maent hefyd i'w gweld yn ddigon eang i Gomisiynydd y Gymraeg gael y dylanwad mwyaf posibl gyda safonau'r Gymraeg.

Mae gofyn tynhau ar yr eirfa a ddefnyddir wrth gyfeirio at wahanol bartïon e.e. mae unigolyn(ion) preifat, unigolyn(ion), aelodau'r cyhoedd, cyhoedd, personau sy'n darparu newyddion i'r cyhoedd, sefydliad(au), corff/cyrff, asiantaeth (au) a pobl sy'n byw mewn cymunedau ledled Cymru yn *rhy gul* o'u cymharu â chynnwys Mesur y Gymraeg. Mae angen diffinio beth yw 'person' a gwneud hynny'n gwbl glir yn y ddogfen ymgynghori fel y gall sefydliadau ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys aelodau etholedig.

Gan fwyaf, mae'r diffiniad a roddwyd o'r safonau llunio polisi yn dod yn syth o'r Mesur, i lawr at waelod y paragraff lle ceir y geiriau "Ystyr 'penderfyniad polisi'". Ar ôl y paragraff hwn, mae'r Llywodraeth wedi cynnig 2 baragraff ychwanegol o'u ddewis ei hun gan gynnwys rhestr o feysydd polisi. Effaith y paragraffau ychwanegol yw ei fod yn rhoi cyfyngiad ar ystyr gwreiddiol 'penderfyniad polisi' o fewn y Mesur. Os bydd Comisiynydd y Gymraeg yn asesu cydymffurfiaeth yn erbyn diffiniad y Mesur (sef unrhyw benderfyniad



a wneir gan berson ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau), gall y sefydliad ddadlau mai'r diffiniad o 'lunio polisi' o fewn y safonau eu hunain yn unig yw'r gofyniad cyfreithiol. Gan fod y safonau yn cael eu creu gan Reoliadau cyfreithiol newydd, bydd dadl o'r fath gan sefydliad yn debyg o fod yn llwyddiannus. Mae'n bwysig felly bod diffiniad o benderfyniad polisi a llunio polisi yn adlewyrchu'r Mesur o'r cychwyn neu gall anawsterau cyfreithiol godi i'r Comisiynydd o geisio gosod dyletswyddau ar sail y diffiniad yn y dyfodol. O gynnwys y paragraffau ychwanegol nid yw'r diffiniad i'w weld yn ddigon eang i Gomisiynydd y Gymraeg gael y dylanwad mwyaf posibl gyda safonau'r Gymraeg. Os bydd y Llywodraeth am gynnwys dehongliad o'r safonau hyn bydd yn bwysig cynnwys ffurf ar eiriad sy'n cyfleu fod y disgrifiad yn un 'heb gyfyngiad'. Yn ddiamau fe ddylai penderfyniad polisi yn ymwneud â deddfwriaeth ddod o dan y safonau llunio polisi.

Mae'r diffiniad a roddwyd gan y Llywodraeth i safonau gweithredu yn adlewyrchu'r Mesur *ag eithrio* mewn tri lle hynod o bwysig. Mae'r diffiniad yn y ddogfen ymgynghorol wedi hepgor y geiriau '*gan A*' wedi'r geiriau '*hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg*' ar ddechrau is-bwyntiau bwled 1 a 2, a'r geiriau '*gan berson heblaw am A*' yn y trydydd is-bwynt. Mae'r geiriau ychwanegol yma yn bwysig tu hwnt gan eu bod yn esbonio mai defnydd o'r Gymraeg gan berson penodol wrth gyflawni ei weithgareddau y mae'r y safonau hyn yn ymwneud ag ef, ac nid yr effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg gan rhywun arall wrth i'r person hwnnw gyflawni ei weithgareddau. Mae hepgor y geiriau hyn yn newid ystyr a phwrpas y safonau yn llwyr gan wneud effaith y safonau yn fwy cyffredinol yn hytrach nag ymwneud â hawliau person penodol i gyflawni ei weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth ddiffinio safonau hybu mae dogfen ymgynghori'r Llywodraeth yn dweud na fydd Gweinidogion Cymru'n ddarostyngedig i'r safonau hybu ar saill y ffaith fod adran 78, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 eisoes yn gofyn i Weinidogion Cymru baratoi strategaeth iaith. Fodd bynnag mae'r Llywodraeth yn rhagdybio canlyniad yr ymgynghoriad ar safonau'r Gymraeg wrth ddweud hyn. Yn ychwanegol nodwn y byddai eithrio Gweinidogion Cymru o'r safonau hybu yn arwain at drefn anghyson.

Nid yw'r Comisiynydd yn gwrthwynebu fod y Llywodraeth wedi rhoi ei ddiffiniad ei hun yn ychwanegol at gynnwys Mesur y Gymraeg ag eithrio yn yr amgylchiadau hynny lle fo'r dehongliad yn angyson neu'n wahanol i'r Mesur neu'n cyfyngu ar sgop Mesur y Gymraeg.

4. Arsylwadau cyffredinol ar y fframwaith

Mae'r adran hon yn cynnig arsylwadau ar y fframwaith yn ei gyfanrwydd. Mae'r sylwadau'n cael eu cyflwyno o dan gyfres o is benawdau er hwylustod.

(i) Y fframwaith arfaethedig ac ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg

Cafwyd adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gynhaliodd y Comisiynydd yn 2012 ar



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

safonau a cheir crynodeb o'r ymatebion hynny yn nogfen y Comisiynydd: ***Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Beth yw'ch barn? Ymgynghoriad anstatudol: trosolwg o'r ymatebion.***

Ymysg y negeseuon nodwyd fod y gwahaniaethau amrywiol a fodolai, yn gyfansoddiadol, daearyddol a demograffig yn gwneud y cysyniad o weithredu safonau iaith cyson yn heriol. Roedd y wasgfa ariannol gyfredol hefyd yn ffactor amlwg ymysg y darparwr. Rhoddwyd pwyslais ar greu fframwaith fyddai'n caniatáu gwella dros amser.

Nododd rai bwysigrwydd gosod seiliau cysyniadol cadarn i'r fframwaith safonau. Roedd ymatebwyr am wybod sut byddai safonau'n ymdrin â 'dewis iaith', sefyllfaoedd o 'angen iaith' a holwyd a fyddai cynnig rhagweithiol yn egwyddor ganolog yn y fframwaith. Roedd rhai am ddarparu yn unig drwy ateb y galw, gan wneud hynny'n os oedd y galw'n cyrraedd trothwy digonol. Roedd ymatebwyr yn chwilio am arweiniad ynghylch cywair yr ymwneud rhwng y darparwr a'r defnyddiwr. Cyfeiriwyd at brinder defnydd gwasanaethau gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Comisiynydd a chynigiwyd sawl modd creadigol o fynd i'r afael â hyn drwy safonau.

Roedd sefydliadau am wybod yn union sut byddai'r drefn safonau'n gweithio.

Gallai safonau arfaethedig y Llywodraeth fod ar eu hennill pe byddai swyddogion yn ystyried natur yr ymatebion i ymgynghoriad y Comisiynydd cyn cwblhau'r fframwaith safonau cyfredol.

(ii) Nodwedd fanwl a rhagnodol fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau

Mae safonau arfaethedig Llywodraeth Cymru'n dilyn ymagwedd fanwl iawn. Hyd y gwelwn, mae cynigion y Llywodraeth yn cynnig 106 o safonau cyflenwi gwasanaeth; 4 safon llunio polisi; 11 safon gweithredu; 4 safon hybu. Nid yw'r adran ar safonau cadw cofnodion wedi ei chyflwyno eto. Roedd ymatebwyr i ymgynghoriad y Comisiynydd yn dymuno gweld llai o safonau na'r hyn gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiynydd.

Sgil effeithiau anorfod dilyn fframwaith fanwl yw'r anhawster o greu safonau ar gyfer pob amgylchiad. Bydd felly'n bwysig peidio gadael bylchau a allasai yn y pen draw arwain at ganlyniadau gwael i siaradwyr Cymraeg.

Mewn ymgais i asesu pa mor gynhwysfawr yw'r fframwaith arfaethedig yn ei gyfanrwydd, ac o fewn yr amser a gafwyd, fe ystyriwyd safonau arfaethedig y Llywodraeth yn erbyn y mesurau y gofynnir i sefydliadau eu cynnwys fel ymrwymiad yn eu cynlluniau iaith cyfredol. Ystyriwyd canllawiau statudol Adran 9, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyngor cysylltiedig sy'n ymhél â pharatoi cynlluniau iaith Gymraeg. Wrth wneud y gymhariaeth canfuwyd fod rhai gofynion cyfredol yn absennol o'r safonau arfaethedig cyfatebol. Ystyriwyd cynnwys rhai cynlluniau iaith a mesurau sydd wedi eu cyflwyno o'r newydd i gynlluniau iaith yn sgil cyhoeddi cyngor pellach i sectorau neu ar bynciau penodol. Canfuwyd fod rhai ymrwymadau eraill i'w cael mewn cynlluniau iaith na sydd yn gynwysedig yng nghynigion arfaethedig y Llywodraeth. Mae atodiad 2 yn cynnig sylw ar elfennau coll o fewn y



safonau a gynigir.

Awgrymir y dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad trwyadl o'r safonau drafft cyn mynd i ymgynghoriad er mwyn osgoi ymgynghori ar gynigion sy'n amlygu bylchau.

(iii) Natur amodol safonau'r fframwaith

Mae mwy nag un safon yn y ddogfen ddrafft sy'n amodol. Gan amlaf mae'r amodi hwn yn ymhél â'r ffaith nad oes disgwyl i sefydliad gynnig gwasanaeth Cymraeg oni bai fod digon o staff dwyieithog 'ar gael'. Ni ddylid tynnu'r dewis i ddefnyddio'r Gymraeg oddi ar y sawl sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg heb wneud hynny mewn modd hynod ofalus, a dylai unrhyw resymeg gysylltiedig fod wedi ei wreiddio yn y cysyniad o degwch.

Mae'r is ystyriaethau canlynol yn berthnasol i'r safonau sy'n tynnu dewis iaith oddi ar y defnyddiwr:

Dyletswydd i wella

Lle tybir nad oes modd i sefydliad gyflenwi gwasanaethau ar adeg gosod y safon nid oes unrhyw ofyniad gwella cysylltiedig a rhaid yw datrys y llithriad hwn o fewn y fframwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio fod cynlluniau iaith yn cynnwys elfennau amodi ochr yn ochr gydag ymrwymiad i wella drwy gyfrwng amserlen. Mae hyn hefyd yn fodd o gyflwyno rhesymoldeb a chymesuredd i'r gofynion sy'n anodd eu cyrraedd yn syth.

Effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg

Tybir fod rhai safonau amodol yn anaddas ar gyfer yr amrediad yr arferion ieithyddol sydd i'w gael mewn gwahanol sefydliadau yng Nghymru e.e. lle fo'r Gymraeg eisoes yn cael ei defnyddio yn gytras â'r Saesneg neu yn fwy rheolaidd ac mewn ardaloedd a siroedd lle mai'r Gymraeg yw'r prif nodwedd ieithyddol. O ganlyniad gall effaith rhai safonau amodol fod yn wrthgynhyrchol.

Fformiwlâu

Mae'r defnydd o fformiwlâu ynghlwm â'r safonau amodol yn rhywbeth sydd angen sylw pellach. Nid yw dull mathemategol o ddod at benderfyniad wedi eu seilio ar y cysyniad o degwch. Dylid clymu unrhyw feini prawf a gynhwysir mewn fformiwlâu at egwyddorion y Mesur.

Isod rhoddir enghraifft o wendidau un fformiwla:

Os derbynnir bod cyfran o 10% yn cyfeirio at yr ardal ehangaf lle y dosberthir gohebiaeth, a bod awdurdod lleol yn dosbarthu at yr awdurdod cyfan, byddai'n golygu na fyddai'n rhaid i Pen-y-bont ar Ogwr (9.7%), Merthyr (8.9%), Blaenau Gwent (7.8%), Torfaen (9.8%), Chasnewydd (9.3%) na Mynwy (9.9%) ddosbarthu'n ddwyieithog. Ond hwyrach y byddai modd dehongli 'yr ardal y dosberthir iddi'n



wahanol'. e.e. er dosbarthu i Ben-y-bont yn gyfan, byddai'r dosbarthiad i 'ardaloedd' (adrannau etholiadol, Cymuned ayb) o fewn yr awdurdod cyfan lle byddai dros 10% yn gallu siarad Cymraeg. Neu, os dosberthir yn ôl cod post, posibl iawn eto, y byddai rhai dros 10% (a rhai $\leq 10\%$) er bod dros 10% yn yr ardal ehangaf.

Mae'r fformiwlâu yn or-ddaearyddol eu pwyslais, yn seiliedig ar ganrannau, ac yn ddull nad yw'n caniatáu ar gyfer newid yn y cyfansoddiad poblogaeth neu newid mewn patrymau defnydd.

Mae'r 3 ystyriaeth uchod yn dangos yr angen i roi ystyriaethau bellach i'r safonau amodol. Yn y cyswllt hwn mae'n bwysig cofio fod sawl erfyn defnyddiol yn y Mesur ei hun ar gyfer amrywio ar safon gan gynnwys hysbysiadau cydymffurfio ac ymchwiliad safonau.

(iv) Lefelau

Am sawl rheswm mae man cychwyn sefydliadau yng nghyswllt eu defnydd o'r Gymraeg yn amrywio. Hyd yma y mecanwaith a ddefnyddiwyd er mwyn rheoli a gwella defnydd o'r Gymraeg ymysg sefydliadau fu 'amserlen'. Mae'r amserlen yn rhan o gynllun iaith cytunedig. O dan y drefn safonau bydd angen rhyw fodd o sicrhau gwelliant mewn perfformiad dros amser.

Mae risg y gwnaiff defnyddio lefelau arwain at ddarpariaeth dwy haen ac ni fyddai hynny'n cwrrd â nod y safonau o greu mwy o gysondeb.

Byddai gan y Comisiynydd ddiddordeb clywed a yw'r Llywodraeth wedi ystyried dulliau eraill o fynd i'r afael gyda'r angen i osod gofynion gwahanol ar sefydliadau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. A yw'r Llywodraeth wedi cymharu'r cysyniad o lefelau ochr yn ochr gydag amserlen (diwrnodau gosod) dyweder?

(v) Ymdrin ag ansawdd drwy gyfrwng y fframwaith

Weithiau ceir cyfeiriad at yr angen i sicrhau fod ansawdd gwasanaethau Cymraeg neilltuol yn gytras â gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Nid yw'n glir pam fod rhai o'r safonau'n cyfeirio at ansawdd gwasanaeth ond nid eraill.

(vi) Ieithwedd y fframwaith

Mae ieithwedd y fframwaith yn gosod yr iaith Saesneg yn norm ieithyddol. Gwneir hyn yn y safonau i gyd. Dylai'r ieithwedd fod yn niwtral o ran cyfeiriad at arferion iaith.

Caiff y termau 'Rhaid' a 'Dylid' ill dau eu defnyddio. Er mwyn eglurder rhaid ei gwneud yn glir beth yw'r dyletswyddau gorfodol 'rhaid' [must] a beth sy'n ddewisol 'dylid' [should] fel bod yr orfodaeth yn glir.



Ar adegau tybir nad oes diffiniadau clir ar gyfer rhai meysydd llafur e.e. pan fo safon yn cyfeirio at dderbynfa, a yw desg flaen llyfrgell yn cael ei ystyried yn dderbynfa? Yn codi o hynny a yw llyfrgellydd i ystyried eu hun yn weithiwr derbynfa? Mae angen eglurder ar faterion fel hyn i'r sefydliad ac i aelodau'r cyhoedd.

5. Model gweithredu

Noda [Adran 27 \(4\) \(a\)](#) o'r Mesur bod modd i safonau a bennir gan Weinidogion Cymru ymdrin â "...nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau..." I bob pwrpas, mae hyn yn caniatáu gosod safon(au) a fyddai'n gosod disgwyliad y bydd corff, neu gyrff, yn darparu cynllun(iau) neu strategaethau. Mater i Lywodraeth Cymru yw dewis a ddylai safonau bennu gofynion ynghylch dulliau gweithredu yn ogystal ag amcan polisi. Mae'n rhesymol disgwyl mai'r amcan polisi fyddai priod swyddogaeth y safonau ac mai eilbeth fyddai'r dull o osod y safon ar waith. Mae'r safonau gweithredu wedi gwyrddroi'r disgwyliad hwnnw e.e. drwy bennu safon i gynnal neu sefydlu pwyllgor a gosod yr amcanion polisi fel is bwyntiau bwled o dan awdurdodaeth pwyllgor.

Mae gofyn dyrchafu statws y pwyntiau a geir yn adran y safonau gweithredu i fod yn safonau. Dylai sicrhau cydymffurfiaeth â safonau gweithredu fod yn gyfrifoldeb i Gomisiynydd y Gymraeg. Yn y cyswllt hwn nid yw rôl pwyllgor sefydliadol yn glir.

6. Safonau Cadw Cofnodion

Dylid sicrhau bod safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â safonau penodedig eraill yn y ddogfen ymgynghori o'r cychwyn. Bydd angen ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau adrodd ar drefniadau clir ar gyfer gweithredu safonau penodedig eraill; darparu tystiolaeth fydd yn cynnig sicrwydd i Gomisiynydd y Gymraeg bod sefydliad yn mesur gallu eu hunain yn fewnol i gydymffurfio â safonau penodedig eraill; adrodd ar ansawdd a lefel cydymffurfiaeth safonau penodedig eraill ac unrhyw dargedau gwella gosodedig (perfformiad fesul gwasanaeth); mynd i'r afael â gwendidau sylfaenol.

O dderbyn y safonau cadw cofnodion mewn da bryd gellir darparu ymateb iddynt cyn i'r Llywodraeth ymgynghori ar y math o ddarpariaethau tybient y bydd yn briodol eu gweld mewn safonau o'r fath.



Atodiad 1

Safonau arfaethedig y llywodraeth: gofynion mewn safonau sydd islaw ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg

Mae cynnwys yr atodiad hwn i'w ddarllen ochr yn ochr gydag arsylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar gynigion drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau'r Gymraeg.

Safon 16 ar ateb galwadau ffôn drwy switsfwrdd – mae lefelau'r ymrwymïadau mewn cynlluniau iaith cyfredol yn uchel yn barod o'u cymharu a chynigion y Llywodraeth gyda rhai yn cyrraedd “Lefel 1” ac eraill yn ymrwymo i'w gyrraedd dros amser. Awgryma hynny nad yw'r canrannau isaf yn “Lefel 2” yn addas ar gyfer y cyrff dan sylw.

Safon 27 ar lefel gwasanaeth llinellau cymorth - nid yw pob cynllun iaith yn cyfeirio'n benodol at linellau cymorth, ond mae'r ymrwymïadau sydd yn bodoli yn uchel. Fe awgryma'r ddogfen ymgynghori ar y safonau y caiff gwasanaethau llinellau cymorth eu cynllunio ymlaen llaw a dylai'r gofynion yn sgil hynny fod yn uwch. Mae amheuaeth fawr a fyddai'r lefelau isaf yn y safon arfaethedig yn llwyddo i sicrhau gwella a chynnydd yn arfer cyfredol awdurdodau lleol. Byddai'n amherthnasol i'r mwyafrif ohonynt.

Safonau 33 - 45 ar gyfarfodydd personol - nid yw pob cynllun iaith yn gwahaniaethu rhwng y pedwar senario gwahanol a geir yn y ddogfen ymgynghori. Er hynny, mae'r sefydliadau a ystyriwyd un ai eisoes yn ymrwymo i safonau tebyg i'r cynigion neu'n cynnig mwy o warant am wasanaeth cyfrwng Gymraeg (yn arbennig yn achos cyfarfodydd a drefnir ymlaen llaw). Mae risg bod y cynigion fel maent yn sefyll yn caniatáu *status quo* annigonol heb unrhyw gyfle i wella darpariaeth cyfrwng Gymraeg.

Safon 70 ar ffurflenni – fe ymdrinnir â ffurflenni yn wahanol i gyhoeddiadau eraill mewn llawer o gynlluniau iaith. Mae'r ymrwymïad ar gyfer ffurflenni, gan eu bod yn aml yn ddogfennau rhyngweithiol sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd, yn dueddol o fod yn uwch ac yn llai agored i ddehongliad. Mae'r cipolwg yn amlygu na fyddai system sgorio o'r math a gynigir yn y ddogfen ymgynghori yn addas ar gyfer y cyrff dan sylw. Byddai'r cyrff un ai eisoes yn cwrdd â lefel 1 yn syth, neu'n cwrdd â lefel 1 gyda rhai mân eithriadau.

Safon 75 ar wefannau – er bod nifer o dudalennau gwefannau yn parhau i fod yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y maes yma ymysg awdurdodau lleol yn ddiweddar. Mae'r ymrwymïadau yn adlewyrchu hynny ac yn codi amheuan ynghylch addasrwydd y lefelau isaf a gynigir yn y safon. E.e. byddai gweithredu yn unol â Lefel 4 yn caniatáu i awdurdod lleol gymryd 10 mlynedd i ddarparu gwefan lawn yn Gymraeg. Ni fyddai hynny'n addas ar gyfer y cyrff dan sylw.

Safon 116 ar gynllunio'r gweithlu - er bod yr ymrwymïad cyffredinol ynghylch sicrhau bod gan y sefydliad ddigon o staff gyda'r sgiliau priodol i gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg yn gyson gyda chynlluniau iaith, mae'r cynlluniau yn mynd i llawer mwy o fanylder ynghylch y prif gamau er mwyn gweithredu hynny. Mae cynnwys y manylder hynny mewn cynlluniau iaith yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau elfen o gysondeb ac ansawdd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Fe amlygwyd problemau gyda'r safonau canlynol hefyd: -

Safonau 5 a 6 ar gychwyn gohebu – roedd cyrff eisoes wedi ymrwmo i lefel 1, neu'n agos at lefel 1.

Safon 68 ar gyhoeddiadau – roedd cyrff yn gweithredu lefel 1, neu lefel 2 llawer tynnach a oedd yn eithrio llai o ddogfennau.

Safonau 81 ar dderbyn ymwelwyr, roedd ymrwymiad ar gyfer “prif dderbynfa” yn uwch na'r lefelau isaf.

Safon 93 ar ddyfarnu contractau - roedd cyrff yn mynd ymhellach na'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori drwy sicrhau bod gwasanaeth drwy gontract yn dilyn ymrwymadau perthnasol y cynllun iaith.

Safon 119 - mwyafrif y cyrff yn darparu ffurflenni recriwtio yn Gymraeg fel mater o drefn.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Atodiad 2

Bylchau yn fframwaith safonau arfaethedig Llywodraeth Cymru

Mae cynnwys yr atodiad hwn i'w ddarllen ochr yn ochr gydag arsylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar gynigion drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau'r Gymraeg.

A Rhestr o faterion absennol o ddogfen ymgynghori'r Llywodraeth

Ffôn - Cyhoeddi rhestr o swyddogion dwyieithog ar draws y sefydliad y gellir cysylltu â hwy i drafod materion yn Gymraeg

Cyfarfodydd cyhoeddus - Aelod o staff dwyieithog i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd

Cyfarfodydd ar safle'r sefydliad *et al* - Dosbarthu staff dwyieithog i weithleoedd lle mae cyfran y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn galw neu'n defnyddio gwasanaethau'n aml mewn modd all gyflenwi gwasanaeth Cymraeg. Lle nad oes modd cynnig cyfarfodydd yn Gymraeg fel mater o drefn, bod â threfniadau parod ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg lle bynnag y bo gofyn gwneud hynny drwy fod â thimoedd gwasanaeth neu drefniant arall mewn lle

Arwyddion - Polisi codi arwyddion ar adeiladau ysgolion

Cyhoeddiadau - Prif gofnodion yn gorfod bod yn ddwyieithog

Hysbysebion Recriwtio - Polisi ar gyfer defnydd o gyfryngau electronig ar gyfer hysbysebu swyddi

Cynllunio'r Gweithlu - Mae angen bod yn glir ynghylch y nod polisi wrth gynllunio gweithlu'r sefydliad. A ydyw'r anghenion mor gyfyngedig â'r angen i gyflenwi gwasanaethau amodol i'r cyhoedd heb unrhyw gymhelliant i wella ynteu a oes gofyn cynllunio'r gweithlu er dibenion gwella gwasanaeth neu er dibenion ehangach megis cyflawni nod y Mesur? Mae'r mesurau mewn cynlluniau iaith yn cynnwys:-

- Cynnal ymarferiad mapio anghenion staffio dwyieithog y gweithlu o dro i dro
- Dynodi swyddi yn rhai lle fo'n hanfodol medru'r Gymraeg neu ddymunol i fedru'r Gymraeg....a chynnwys y gofyniad mewn swydd ddisgrifiad
- Targedau recriwtio staff dwyieithog i rai mannau o brinder neu'n gyffredinol e.e. i'r Pencadlys, i swyddfeydd rhanbarthol neu i dimoedd gwasanaeth penodedig neu i ardaloedd o gyfansoddiad ieithyddol penodedig fel y gellir diwallu'r safonau mae P yn ddarostyngedig iddynt
- Mesur anghenion hyfforddi'r gweithle



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Yr angen i ddelio gyda meysydd o brinder sgiliau dwyieithog sy'n atal y sefydliad rhag cwrdd gofynion y safonau mae'n ddarostyngedig iddynt

Recriwtio

- Ceisio recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai swyddi arbennig
- Cymal ar gyfer delio gydag achosion o brinder
- Yr angen i ddweud nad yw'r mesurau recriwtio yn cynnwys ysgolion
- Os yn penodi rhywrai di Gymraeg i swyddi lle fo Gymraeg yn hanfodol rhaid yw gosod amod fod deilydd y swydd yn dysgu
- Cymraeg i safon benodedig o fewn cyfnod penodedig lle fo'r cyrhaeddiad hwnnw i'w brofi
- Dulliau denu staff dwyieithog

Hyfforddiant iaith Gymraeg

- Dysgu a gwella hyfedredd iaith Gymraeg
- Cefnogaeth i staff sy'n dysgu neu ymarfer defnyddio'r Gymraeg
- Hyfforddiant ar rai sgiliau penodol

Technoleg Gwybodaeth - Mae angen safon ar gyfer manylebau TG, systemau newydd i hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhai dros dro lle fo cyfiawnhad dros hynny

Safonau Gwasanaethau Addysg - Darparu ysgolion, rhoi adnoddau at ddefnydd Llywodraethwyr Ysgol a gweinyddu trefniadau staffio, cyflenwadau, gwasanaeth cefnogi, grantiau myfyrwyr, technoleg gwybodaeth ac ati

Safon(au) yn ymwneud â gwasanaethau democrataidd a swyddogaethau democrataidd a'i gweinyddiad. *(Oherwydd pwysigrwydd symbolaidd a materol democratiaeth ar waith, credwn fod safon(au) neilltuol yn deilwng yma).* Mae mesurau mewn cynlluniau iaith yn cynnwys: -

- Cofnodion, rhaglenni, adroddiadau ar gyfer Cyfarfodydd Cyngor, Pwyllgorau, Is-bwyllgorau.
- Hawl Aelod i ddefnyddio'r Gymraeg,
- Darparu offer cyfieithu ar y pryd wedi eu gosod mewn adeiladau lle cynhelir cyfarfodydd a chyfleuster ar gyfer cyfieithu ar y pryd
- Cyhoeddi prif gofnodion a phenderfyniadau democrataidd yn y Gymraeg

Gofal cymdeithasol i unigolion sydd dan anfantais neu'n agored i niwed - Safon ar gyfer amgylchiadau megis salwch a straen lle byddai o anfantais i unigolion beidio defnyddio'u iaith gyntaf e.e. wrth gynnal cyfarfodydd personol. Tybir fod angen safon(au) ar gyfer awdurdodau lleol gan fwyaf sy'n gosod disgwyliad arnynt i adnabod, ymateb a darparu ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath e.e. drwy gynnal asesiadau sy'n rhoi sylw i anghenion iaith



Gymraeg unigolion sy'n derbyn gofal a datblygu safon benodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd gydag unigolion bregus dyweder

Safon(au) ar gyfer swyddogaethau rheoleiddiol (regulating functions) - Mae'r swyddogaethau uchod yn perthyn i grŵp a swyddogaethau megis trwyddedu cartrefi preswyl a grwpiau chwarae i blant ifanc. Rhoddir trwyddedau caniatâd ar gyfer cynnal adloniant ac i fasnachu drwy farchnadoedd strydoedd ac ati. Maent hefyd yn delio gyda cheisiadau cynllunio ac yn rhoi caniatâd iddynt, neu beidio. Dylai safon(au) gael eu llunio sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn ffurflenni trwyddedu a rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatgan bwriad mewn perthynas â'r Gymraeg o fewn ffurflenni trwydded, neu faterion rheoleiddiol cyffelyb

Cydweithio - Ar lefel strategol, polisi, ac o ran gweithredu ymarferol, mewn meysydd fel addysg, cynllunio, a gwasanaethau cymdeithasol, tai ac ati rhaid yw cydweithio. Bydd gofyn cael safonau'n berthnasol pan fo dau sefydliad yn cydweithio a'i gilydd

Enwau Lleodedd - Mae safonau arfaethedig y Llywodraeth yn cynnwys cyfeiriad at arwyddion gwybodaeth dwyieithog ond nid yw'n delio gydag enw lle. Gan mai Awdurdodau Lleol sydd a'r pŵer i roi enw ar le e.e. datblygiadau tai newydd a strydoedd dylai safon(au) ynghylch sut i bennu enwau lleodedd; strydoedd a datblygiadau newydd fod yn weithredadwy. Ceir ymrwymiad polisi mewn cynlluniau iaith sy'n gydnaws â gwahanol ddeddfwriaeth ynghylch enwau lleodedd

Awdurdod a Chyfrifoldeb - Sefydliadau egluro ble mae'r awdurdod a phwy sydd a'r cyfrifoldeb dros Safonau'r Gymraeg a sicrhau fod pawb perthnasol yn gwybod ble mae'r awdurdod a'r cyfrifoldeb gweithredol. Sefydliadau i osod arweiniad o fewn y sefydliad ar sut i weithredu safonau'r Gymraeg gan gynnwys arweiniad ysgrifenedig.

Cyfleuster - Angen safon yn nodi bod rhaid cael gwasanaeth cefnogol i weithredu safonau'r Gymraeg e.e. ar ffurf uned Gymraeg; darpariaeth cyfieithu ysgrifenedig, cyfleuster TG a meddalwedd yn ogystal â chyfleuster cyfieithu ar y pryd: sefydlog mewn adeiladau lle cynhelir cyfarfodydd pwyllgor ac offer symudol

Cyfieithu - Safon yn nodi fod cyfieithwyr yn meddu cymhwyster addas

Cynnal arolygon - Dim sôn yma am sicrhau y *cynigir* fersiwn Gymraeg holiadur, na bod yn rhaid cynnig *cyfweiliad* Cymraeg (wyneb yn wyneb, neu dros ffôn) gan ddefnyddio fersiwn o'r holiadur sydd wedi ei gyfieithu ymlaen llaw, h.y. nid yw cyfieithiad ad-hoc yn dderbyniol. Mae eisiau Safon ynglŷn â gofyn am ddewis iaith, a threfniadau i sicrhau cyfweiliadau (wyneb yn wyneb, neu dros ffôn) Cymraeg. Holl ohebiaeth cysylltiedig, e.e. llythyrau cyflwyno, trefnu oed, llythyron atgoffa

Gwella (*i'w cynnwys yn y safonau hybu*) - Rhaid i awdurdod lleol ystyried yr angen i wella'r modd y mae'n ymarfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Gymraeg. Wrth gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, rhaid i awdurdod lleol ystyried yr angen i osod amcanion gwella mewn perthynas â'r Gymraeg.



B Arsylwadau ar elfennau anghyflawn yn safonau drafft Llywodraeth Cymru

Cyfarchiad ffôn - Dylai'r safon cyfarchiad ffôn nodi *un* dull eglur o gyfarch galwadau allanol er mwyn sicrhau cysondeb profiad i'r defnyddiwr.

Dychwelyd galwadau - Dylai'r safonau sy'n ymhél â dychwelyd galwadau ffôn, lle nas gellir delio gyda'r galwr yn syth, ymrwymo'r sefydliad i ffonio'r galwr yn ôl o fewn cyfnod penodedig o amser. Dylai'r safonau gynnig beth ddylai'r cyfnod rhesymol hwnnw fod fel bod y disgwyliadau yr un fath ar bawb bob amser ym mhob amgylchiad. e.e. 19

Switsfwrdd - Byddai angen i Gomisiynydd y Gymraeg dderbyn cofnodion rota staff y switsfwrdd er mwyn gallu gweithredu'r lefelau a gynigiwyd. e.e. 16

Trosglwyddo - Mae'r cynnig o drosglwyddo galwr at aelod o staff os yw ar gael yn golygu nad oes unrhyw hawl yma i'r Comisiynydd ei orfodi. Os cedwir y patrwm hwn o gynnig defnyddio'r Gymraeg ar sail argaeledd staff dwyieithog yn unig rhaid yw cofnodi bob methiant ac adrodd ar hynny drwy safon cadw cofnodion o dan ddosbarth safonau gweithredu - cynllunio'r gweithlu. e.e. 24

Ni ddylai siaradwyr Cymraeg fod o dan anfantais pe na bai staff ar gael i ddelio gyda galwr yn Gymraeg e.e. pe bai gofyn gwneud taliadau neu wneud cofrestriad. Rhaid felly rhoi estyniad i'r rhai hynny sy'n gorfod aros am wasanaeth yn y Gymraeg i gwblhau gofynion fel y rhai yn yr enghreifftiau uchod.

Llinellau cymorth a chanolfannau gwasanaeth - Maent yn cael eu diffinio fel gwasanaeth "wedi'i gynllunio ymlaen llaw". O ystyried y diffiniad hwnnw mae'n rhesymol disgwyl fod gwasanaethau Cymraeg hefyd wedi ei gynllunio ymlaen llaw? Dyma un o'r amgylchiadau lleiaf tebygol o fod angen amrediad o lefelau lleddfu ar ei gyfer. e.e. 27 ymlaen.

Defnyddio'r Gymraeg ar lafar (cyfarfodydd ac ati) - Gellir disgwyl i'r dyletswyddau ar gyrff perthnasol alluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith. Ym marn y Comisiynydd, rhaid i unrhyw ddyletswydd gynnwys y gallu i gyfathrebu ar lafar gyda siaradwyr Cymraeg. Mae'r Mesur, dogfen ymgynghorol y Llywodraeth a'r ymrwymiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn sôn am siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith. Er bod rhaid i'r safonau fod yn rhesymol ac yn gymesur, mae'n rhaid iddynt gyflawni'r dyletswydd cyfreithiol i siaradwyr Cymraeg hefyd. O ganlyniad, mae'n debyg na fydd yr opsiwn i ysgrifennu at gorff perthnasol yn lle cyfathrebu ar lafar yn ddigonol i gyflawni'r ymrwymiad cyfreithiol yma. e.e. 20

Diwyg gweledol - Mae dyluniad a chysondeb triniaeth ieithoedd yn cael sylw sawl gwaith drwy'r ddogfen. I ba raddau y byddai'n synhwyrol delio gyda'r mater o ddiwyg unwaith – boed ar gyfer dogfennau cyhoeddus, ffurflen neu arwyddion ac ati?

Cyhoeddiadau - Cyflwynir lefelau sy'n disgwyl i rai ddarparu popeth yn gwbl ddwyieithog. Mae'r lefel sy'n dilyn yn rhoi disgresiwn i ddilyn tabl sgorio. Mae lle i ddisgwyl i bob sefydliad gyhoeddi rhai mathau o ddogfennau yn Gymraeg ar bob achlysur e.e. adroddiad



neu gynllun perfformiad blynyddol gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad, Rhybudd Treth flynyddol a'r cyfrifon a'r wybodaeth berthynol, prif gofnodion, taflenni, llyfrynau, cylchlythyrau, is-ddeddfau, rheoliadau, tystysgrifau a phosteri yn ogystal â dogfennau mawrion, eitemau i'w hargraffu megis trwyddedau, cardiau, pasiau a thocynnau. Mae angen i bob un o'r lefelau is yn y safon hwn gynnwys rhai gofynion gorfodol ar gyfer cyhoeddiadau dwyieithog. e.e. dogfennau sy'n ymwneud â gwasanaethau gorfodol megis talu treth cyngor. e.e. 68

Deunyddiau amgaeedig - Dylai'r ail bwynt bwled gyfeirio yn unig at ddeunyddiau gan drydydd parti ac nid deunyddiau'r sefydliad ei hun. Heb nodi'r gwahaniaeth hwnnw gall sefydliad ddilyn yr arfer o baratoi deunyddiau yn Saesneg yn unig gan fod y safon fel y'i geiriwyd yn caniatáu arfer o'r fath.

Ffurflen - Mae cyfeiriad at ddeunydd esboniadol ar ffurflen. Gall deunydd esboniadol fod yn *cyd fynd* â ffurflen – ar ffurf llyfryn dyweder. Mae ffurflen yn adwy at wasanaeth neu'n fodd o hawlio taliad neu gydymffurfio â gofynion neu'n contract neu ffurflenni cydsynio. O ganlyniad mae lle cryf i ddadlau y dylai'r angen am ffurflenni dwyieithog fod yn ofyniad absoliwt. Yn sicr ychydig iawn o eithriadau ddylai fod. e.e. 70

Mae angen i'r egwyddor y gall unigolyn gwblhau ffurflen yn Gymraeg yn unig, waeth beth fo iaith swyddog cyflogedig, fod yn gwbl gadarn ac eglur. e.e. 73

Pryder o weld y gair 'hefyd' wedi ei gynnwys ar drydydd pwynt bwled, tudalen 30 yn yr adran am faterion cyffredinol am ffurflenni [B]. Effaith hyn yw awgrymu mai gwybodaeth atodol i'r Saesneg yw gwybodaeth Gymraeg ar ffurflen. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. e.e. 73

Arwyddion - Dylid cyfeirio at bwysigrwydd cywirdeb ieithyddol ar arwyddion. Mae cost cynhyrchu arwydd yn uchel a'r arwydd yn ei le am gyfnod maith felly rhaid i'r safon ddisgwyl dull gwirio ansawdd fel rhan o'r gofyniad. e.e. 78 etc.

A oes angen safon ar gyfer arwyddion y mae sefydliad yn gyfrifol amdanynt – hyd yn oed pe na bai yn ei paratoi ei hunan?

Contractio - Angen i'r safon beidio bod yn un cyfyngu fel yn nhrydydd pwynt bwled y safon oherwydd mae'n rhaid i contractwr weithredu fel pe bai yn esgidiau'r sefydliad sy'n gosod y contract ac felly weithredu pob safon a osodwyd ar y sefydliad ei hun. e.e.89

Codi ymwybyddiaeth - Yn y cyswllt hwn nid yw sefydlu gweithdrefnau codi ymwybyddiaeth yn ddigonol o ystyried nod Mesur y Gymraeg i gynyddu defnydd. Mae'r safon yma'n rhoi cyfle i ddisgwyl i sefydliadau fod yn rhagweithiol ond nid yw'r cymhelliant hwnnw'n amlwg yng ngeiriad y safon. Dylai'r Llywodraeth gyfeirio'n ôl at gasgliadau adroddiad trosolwg Comisiynydd y Gymraeg ac at yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw pan welwyd ewyllys ac awydd i ymhél ag annog a chynyddu defnydd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hunaniaeth gorfforaethol a brandio - Mae angen cynnwys 'hunaniaeth weledol' a 'slogan gorfforaethol' yn y rhestr yn ogystal â'r angen i ddisgwyl bod y ddelwedd yn cael ei osod ar adeiladau, arwyddion, deunyddiau a nwyddau eraill. 98

Grantiau - Mae'r gofynion cydymffurfio yn gyfyngedig ac yn arwain at golli cyfle. *A yw'r Llywodraeth wedi ystyried priodoldeb gosod safon yn disgwyl i gyfran o gronfa grant gael ei chlustnodi ar gyfer cynyddu defnyddio'r iaith Gymraeg pan fo'r gronfa'n un sy'n debyg o fod yn ymhél a gweithgaredd neu debyg?* 90

Safonau ar gyfer cyrsiau - Rydym o'r farn fod angen gwaith pellach ar y safonau hyn e.e. nid yw safon sy'n cynnig cwrs Cymraeg mewn cyfatebiaeth i gynnig cwrs Saesneg yn ystyrllon gan fod darparu cwrs yn gallu bod yn ddigwyddiad ar gyfer cynulleidfya gaeedig a chanfyddadwy, ac i bwrpas penodol. Byddai rhai personau yn darparu drwy gyfrwng y Gymraeg fel norm. Oni allasai cwrs gael ei gynllunio a'i gynnig yn Gymraeg gyda chyfieithu ar gael i'r Saesneg mewn rhai amgylchiadau? A oes perygl fod gosod y safonau hyn heb fod wedi eu saernïo'n drwyadl arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg, sy'n groes i amcanion y Mesur? e.e. 102

Cyfieithu - Cyflëir yn y safon arfaethedig cyfieithu mai drafftio dogfennau yn Saesneg yw'r norm. Mae'r safonau cyflenwi gwasanaethau a allai fod â chyfieithu testunol yn sail i'w gweithredu yn hefyd yn awgrymu mai'r Saesneg yw iaith arferol drafftio dogfennau sefydliadau. Dylai cymal fod ynghlwm â phob un o'r safonau cyflenwi gwasanaethau perthnasol yn nodi bod angen i'r cynnwys a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg fod o'r un ansawdd a'r un statws â'i gilydd wrth ddarparu'r gwasanaeth. Un adnodd sy'n galluogi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yw gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. I'r perwyl hwnnw dylid cynnwys safon sy'n nodi'r angen i sefydliadau fod â gweithdrefnau cyfieithu addas mewn lle i sicrhau bod modd i sefydliadau weithredu gofynion y safonau o ran cynnal cyfarfodydd a darparu deunyddiau testunol dwyieithog o'r un ansawdd yn y ddwy iaith. Dylid nodi yn y safon bod angen sicrhau bod holl aelodau staff y sefydliad yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn ac yn gwybod sut i'w defnyddio. Dylid nodi bod angen i'r gweithdrefnau fanteisio i'r eithaf ar feddalwedd a dulliau eraill sy'n hwyluso a sicrhau ansawdd gwasanaethau cyfieithu a chreu testunau dwyieithog. Mae angen nodi bod angen sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd addas ar gael gan gynnwys adnoddau sefydlog mewn adeiladau lle cynhelir cyfarfodydd pwyllgor. Dylid cynnwys safon yn nodi bod angen i wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd a wneir yn fewnol neu a gaffaelir yn allanol gael eu cyflenwi gan gyfieithwyr sydd â chymwysterau addas ac sy'n aelodau o gorff rheoleiddio cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg megis Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. 103

Disgresiwn - Rhoddir disgresiwn i sefydliadau eithrio o weithredu rhai safonau mewn amgylchiadau neilltuol. Nid ydym yn credu fod "gorfodi'r gyfraith" yn amgylchiad lle fo angen eithrio defnyddio'r Gymraeg. Yn y cyswllt hwn gall defnyddio'r Gymraeg fod yn bwysig er mwyn cyflawni'r swyddogaeth ac er mwyn i unigolyn ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud. Yn wir fe all fod yn fater o hawliau dynol.[cyfeirnod]: Ystyrier amgylchiadau lle fo swyddogion safonau masnach yn gorfodi cyfraith ar amaethwyr mewn ardal lle caiff y



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gymraeg ei defnyddio'n aml; mewn materion tenantiaeth; wrth ymdrin gyda phlant ac ati.
e.e. 45

Datganiadau i'r wasg - Mae cyhoeddi datganiadau i'r wasg o fewn tridiau yn trin y
Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Safonau Gweithredu - Mae angen cynnig cyfleoedd cyson i staff ddefnyddio'r Gymraeg
wrth eu gwaith, lle fo hynny'n rhesymol bosibl, os am eu cymell i newid arferion iaith a
chynyddu defnyddio'r Gymraeg. Mae cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg yn y
gweithle na'r hyn a gynigir yn y safonau arfaethedig.

Mae un safonau gweithredu arfaethedig yn caniatáu gosod dyletswydd ar sefydliadau i
sefydlu pwyllgor fydd yn gyfrifol am ystyried pa gamau y gallasai sefydliad eu cymryd er
mwyn cynnig cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn unol â
darpariaethau'r Mesur, Comisiynydd y Gymraeg ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu ar
fesurau y dylai sefydliadau gydymffurfio â hwy er mwyn cyflawni amcanion y Mesur. Yn
groes i hynny, rhoddir gan y 'safonau arfaethedig yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y
gweithle' y disgrisiwn i bwyllgor mewn sefydliad i benderfynu ar gamau i'w cymryd gan y
sefydliad i gynyddu ei ddefnydd o'r Gymraeg. Nid safonau yw mwyafrif cynnwys yr adran -
cyfres o bwyntiau bwled sydd yma. Rhaid dyrchafu statws y cynigion i fod yn safonau.

Mae ffocws y pwyntiau a gynhwysir yn y dosbarth hwn o safonau yn aneglur: ceir rhai
pwyntiau bwled sy'n anelu at sicrhau cyflawniad safonau eraill, (safonau cyflenwi
gwasanaeth a llunio polisi) a cheir pwyntiau bwled eraill sy'n anelu at gynyddu defnydd o'r
Gymraeg o fewn gweinyddiaeth mewnol sefydliadau. Awgrymir y dylid gwneud rhaniad clir
rhyngddynt.

Safon arfaethedig yn ymwneud â chynllunio gweithlu Cymraeg - Mae'r safonau hyn yn
caniatáu gosod dyletswydd ar sefydliadau i sefydlu gweithdrefnau ac i baratoi adroddiad.
Mae felly'n dechnegol bosibl i sefydliad fod â gweithdrefnau diffygiol na fyddai'n bosibl i
Gomisiynydd y Gymraeg wneud dim yn eu cylch er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i
ddefnyddwyr nac i gynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Safon arfaethedig yn ymwneud â gwefannau - Mae'n bosibl y bydd pennu safonau
gweithredu sy'n ymhél â gwefannau yn ogystal â safonau cyflenwi gwasanaeth sy'n ymhél
â gwefannau yn arwain at ddryswch ynghylch union ddyletswyddau a ddisgwylir gan holl
dimau canolog sefydliad, gan gynnwys timau TG a chyllid, ac nid timau Adnoddau Dynol
yn unig.

Cwynion - Mae gofyn cryfhau'r safon sy'n ymwneud â chadw cofnodion ynghylch cwynion.
Yn y cyswllt hwn dylid derbyn y safon fel y'i cynigiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn
Nhachwedd 2012.

Ni ddylid cynnwys cyfeiriad at Gomisiynydd y Gymraeg oddi fewn i safon 48.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Atodiad 3

Arweiniad polisi Comisiynydd y Gymraeg Cynnig Rhagweithiol

Mae cynnwys yr atodiad hwn i'w ddarllen ochr yn ochr gydag arsylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar gynigion drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau'r Gymraeg.

Mae tystiolaeth bod defnydd rhai gwasanaethau Cymraeg yn is na'r disgwyl o gymharu â'r boblogaeth sirol/ardal. Mae '*disgrifio sut mae'n bwriadu cynllunio a threfnu ei wasanaethau er mwyn cymryd anghenion iaith siaradwyr Cymraeg i ystyriaeth*' yn gyfrifoldeb y cyrff dan sylw ers eu cynlluniau iaith cyntaf. Nid oes llawer o dystiolaeth fodd bynnag bod defnydd o wasanaethau gan siaradwyr Cymraeg yn cael ei fesur a'i ddadansoddi er mwyn ymateb i'r patrymau defnydd hynny mewn ffordd ragweithiol. Mae nifer o gyrff yn meddu ar ddulliau i fesur defnydd ond nid oes llawer o dystiolaeth eu bod yn ystyried y data at ddibenion cynllunio gwasanaethau Cymraeg yn strategol.

Yn hanesyddol nid yw'r dewis bob amser ar gael ac felly nid yw defnyddwyr wedi ymddiried yn ddigonol neu deimlo'n ddigon hyderus i 'ddewis' gwasanaethau a allai ymddangos yn annigonol neu anghyflawn yn eu canfyddiad hwy. Gwyddom am y dylanwadau cydnabyddedig ar ymddygiad defnyddwyr (ee. mynd gyda llif dewis sydd wedi'i bennu yn barod, dylanwad ymddygiad pobl eraill, profiadau blaenorol negyddol) ac o'u rhoi yng nghyd-destun gwasanaethau Cymraeg a'r seicoleg ychwanegol honno, mae hyn yn golygu bod angen gweithredu rhagweithiol ar ran sefydliadau er mwyn newid ymddygiad a chynyddu hyder ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau

Mae'n golygu meithrin dealltwriaeth a dadansoddiad mwy soffistigedig nag a gafwyd hyd yma o ymddygiad. Yn sicr ni ddylid gofyn i ddefnyddiwr orfod 'optio mewn' i wasanaeth Cymraeg. Yn ystod taith y Mesur rhoddodd yr Athro Colin Williams dystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaethol am yr angen i sicrhau bod cynnig rhagweithiol yn rhan greiddiol o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru

Nododd:

"Mae'r dinesydd, naill ai o ran profiad neu ddisgwyliadau, yn seicolegol ac yn ddamcaniaethol yn gwybod bod y Saesneg yn drech na'r Gymraeg ym mhob man yng Nghymru. Felly oni bai bod cynnig rhagweithiol i ysgogi pobl i ofyn am wasanaethau yn y Gymraeg, ac wedyn i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw, bydd yr hen batrwm o anghysondeb yn parhau"

Yn ein dogfen **Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Beth yw'ch barn?**

Ymgynghoriad anstatudol: trosolwg o'r ymatebion, ceir ymdriniaeth o'r ymatebion a gafwyd lle mynegwyd pryder ynghylch gofynion, ystyr ac effaith 'dewis iaith':

"Awgrymodd rhai unigolion a sefydliadau yr hoffent i'r cysyniad o 'gynnig rhagweithiol' gael ei fabwysiadu. Yn eu barn hwy roedd angen hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



yn barhaus ac ni theimlid bod y safonau'n ymddangos fel pe byddent yn galluogi i hynny ddigwydd.

Nododd sawl sefydliad nad oedd defnydd helaeth o'r gwasanaethau Cymraeg a gynigid ganddynt. Dywedodd yr ymatebwyr fod angen mynd i'r afael â'r broblem drwy gymell; targedu ymdrechion; canolbwyntio ar ganlyniadau a manteisio ar y cyfleoedd i hyrwyddo a gyflwynwyd drwy'r Mesur yn eu barn hwy.

Dyma grynoded [o rai] o'r prif safbwyntiau:

- *Dylid annog defnydd mewn modd rhagweithiol er mwyn iddo fod yn gadarnhaol.....*
- *Dylid peidio â gweld y safonau'n ddibyn ynddynt eu hunain a rhoi mwy o bwyslais ar y canlyniadau, gan anelu at wella profiad y defnyddiwr*
- *Roedd angen cryfhau geiriad y safonau gan roi mwy o bwyslais ar elfennau hyrwyddo defnydd*

Cafwyd ychydig o gyfeiriadau at bwysigrwydd cwrdd ag anghenion a sicrhau buddiannau'r defnyddwyr.

Dyma grynoded o'r prif safbwyntiau:

- *Dylid meithrin hyder a chefnogi'r rhai sydd am ddefnyddio'r Gymraeg*
- *Dylid gwella profiad ieithyddol siaradwyr Cymraeg drwy safonau*
- *Dylai darparwyr ddatblygu perthynas adeiladol â defnyddwyr*
- *Dylid amlygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg*
- *Dylid sicrhau adborth gan siaradwyr Cymraeg ynghylch gwasanaethau*
- *Byddai safonau eglur a dealladwy yn debygol o roi hyder i ddefnyddwyr*
- *Roedd angen denu siaradwyr Cymraeg at ddarpariaeth*
- *Roedd cred ei bod yn haws i'r cyhoedd drafod materion personol yn eu hiaith gyntaf*
- *Roedd perygl dibynnu'n ormodol ar gwynion i gynrychioli barn siaradwyr Cymraeg*
- *Roedd angen i sefydliadau gynnal gwell deialog â siaradwyr Cymraeg*

Dylid edrych eto ar safonau o bersbectif yr angen i sicrhau nad ydynt yn gorfodi dinesydd i 'optio mewn' i wasanaeth Cymraeg neu yn rhoi cyfrifoldeb arno i wneud cais am gael defnyddio'r Gymraeg ee.

“os yw'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg...
(37)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

O ran cyfarfodydd cyhoeddus lle nodir:

“Pan fydd gwasanaeth cyfieithu...yn cael ei ddarparu mewn unrhyw gyfarfod, rhaid egluro i unrhyw siaradwyr Cymraeg sy’n cadeirio neu’n llywyddu’r cyfarfod neu sy’n siarad yn ystod y cyfarfod bod croeso iddynt wneud hynny yn Gymraeg” (54)

Er mwyn sicrhau bod dinasyddion sy’n mynychu unrhyw gyfarfod o’r fath yn derbyn neges bod y sefydliad yn darparu’n rhagweithiol ar gyfer defnyddio’r Gymraeg, mae cyfrifoldeb arnynt i osod y cywair i hwyluso hyn. Dylid ychwanegu at y safon hon gan nodi y dylid annog cadeiryddion neu lywyddion i gyflwyno rhywfaint neu’r cyfan o’u cyfraniad drwy gyfrwng y Gymraeg

1.1 Dewis iaith

Cyfeirir mewn sawl safon at ‘ddewis iaith’

“oni bai fod staff sy’n trefnu’r cyfarfod yn gwybod pa un yw dewis iaith yr unigolyn...”
(Safon rhif 33)

“oni bai fod yr aelodau staff sy’n delio â’r unigolyn neu’r unigolion yn gwybod pa un yw eu dewis iaith...” (36)

Yn ogystal â chyfarfodydd yn ymwneud â gweithdrefnau dinesig sefydliad mae cyfarfodydd personol yn gallu bod yn rhai a gynhelir yn rhinwedd darparu gwasanaethau cymdeithasol neu les neu yn gyffredinol, gall y sefydliad fod yn ymwneud ag unigolion bregus ac anodd eu cyrraedd gan gynnwys pobl ag anabledau dysgu neu broblemau iechyd meddwl. Mae angen i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer sefyllfa pan nad yw’n bosibl darparu gwasanaeth effeithiol oni bai ei fod drwy gyfrwng y Gymraeg

Unwaith eto yn ein hadroddiad nodir:

“Codwyd trafodaeth ynghylch y term ‘angen ieithyddol’ mewn ambell ymateb gan y sector iechyd. Gofynnwyd o dan ba amgylchiadau y byddai defnyddio’r Gymraeg yn cael ei weld fel mater o ‘angen’. Yn yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Mwy na Geiriau... un o’r themâu a amlygodd y defnyddwyr oedd bod rhesymau ymarferol a dyletswyddau moesol dros gwrdd ag angen ieithyddol person hŷn, neu blentyn ifanc oedd â’r Gymraeg yn unig iaith iddo/iddi.”

Cynigir felly bod angen nodi’n amlycach neu ddrafftio safon(au) ychwanegol i gwmpasu:

i) yr angen i gyrrff ddarparu cynnig rhagweithiol ynghlwm â gwasanaethau yn ogystal â gosod rheidrwydd arnynt i dalu sylw i ymddygiad defnyddwyr Cymraeg eu hiaith er mwyn gallu gwella’r modd y maent yn darparu ac yn cynnig gwasanaethau. Oni wneir hyn ni fe fydd hi’n anodd gwireddu’r nodau polisi hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg a gweithio



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n annhebygol y gwelir cynnydd mewn defnydd heb y camau hyn.

ii) yr angen i gyrff adnabod, ymateb i a darparu ar gyfer sefyllfa lle nad oes modd darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb effeithiol i ddinesydd oni bai y caiff ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae angen i safonau'n ymwneud â chyfarfodydd personol gynnwys darpariaeth ar gyfer y senarios lle bod angen darpariaeth Gymraeg ar unigolyn ac nad yw'n briodol neu'n foesol disgwyl iddynt:

“aros nes bydd siaradwr Cymraeg ar gael” (25)

neu

“Dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg y gellir gwneud hyn.” (36)

Mae angen i safonau cyflenwi gwasanaeth drafft rhifau 95-97 ystyried y nodau polisi hyn.

Os 'sefydlu gweithdrefnau' yw'r gofyn dylent fod yn weithdrefnau sy'n fwy na hysbysebu yn eu hanfod. Dylent fynd i'r afael â'r angen i gynyddu defnydd a symud ymlaen ac oddi wrth yr arfer o hysbysebu ac annog (rhoi pwysau ar ddefnyddwyr i 'optio mewn' yn aml).

1.2 Eglurder a chysondeb

Mae nifer sylweddol o'r safonau yn amodol ee:

“dim ond os oes aelod staff Cymraeg ei iaith o'r fath ar gael y gellir gwneud hyn” (17)

“rhaid ceisio gwneud hynny” (18)

“Dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg y gellir gwneud hyn.” (36)

Yn ychwanegol at hynny cynigir lefelau ac is-lefelau lle dynodir canrannau argaeledd. Nid yw'n glir sut mae'r dull hwn yn sicrhau eglurder a chysondeb nac yn rhoi sicrwydd i'r dinesydd bod corff yn mynd ati'n rhagweithiol i unioni'r bwch yn y ddarpariaeth.

Os nad yw'n hysbys pryd bydd (a phryd na fydd) gwasanaeth Cymraeg ar gael, ni fydd yn eglur i'r dinesydd pryd gaiff ddefnyddio'r Gymraeg, a ph'un a yw'r corff yn llwyddo neu'n methu yn ei ymrwymadau. Bydd defnyddwyr yn hwyrfrydig i ymddiried yng ngwasanaethau'r sefydliad yn y dyfodol. Ar y llaw arall o'i wneud yn glir, bydd yn gosod



safon gwasanaeth ddisgwyliedig fydd yn cynorthwyo'r dinesydd i gwyno os na fydd y corff yn cydymffurfio â'r safon yn eu barn hwy.

Os na wneir hyn bydd dwy lefel o aneglurder – aneglurder ynghylch a oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ac aneglurder ynghylch pŵer y dinesydd i ddal sefydliad yn atebol dros lefel benodol o wasanaeth.

Enghreifftiau o safonau lle na ddylid cynnwys lefelau:

27 – llinellau cymorth: Mae'r safon yn amodol a cheir aneglurder i'r dinesydd p'un a gaiff wasanaeth Cymraeg ai peidio.

Ymhellach, sut gŵyr y dinesydd beth wnaiff y corff i unioni'r bwlch, a phryd? Gall arwain at bobl yn dadrithio a bodloni ar wasanaeth Saesneg/peidio a mynegi dewis neu angen iaith.

Nodir o dan y pennawd hwn bod 'mwy o gyfle i gynllunio'r ffordd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu darparu' felly nid oes angen lefelau.

A fydd y corff yn hysbysebu yr oriau bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael - dylid gwneud hyn er eglurder i ddinasyddion Cymraeg, bydd yn gosod safon gwasanaeth disgwyliedig fydd yn cynorthwyo'r dinesydd i gwyno os na fydd y corff yn cydymffurfio â'r safon yn eu barn hwy.

70 – ffurflenni: Mae'r safon hon yn rhagdybio bod y sefydliad yn gweinyddu a gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg fel norm.

Ni ddylai lefel 2 fod yn berthnasol. Mae ffurflen yn ei hanfod yn declyn y mae'r sefydliad yn ei ddarparu i dderbyn gwybodaeth gan ddinesydd – boed er mwyn cofrestru ar gyfer gwasanaeth/gwneud cais am daliad ayyb. Mae'n senario lle mae corff yn ymwneud â defnyddwyr yn yr un fath â gohebiaeth. Ni ddylai ffurflenni gael eu cynnwys mewn unrhyw fethodoleg sgorio.

Mae modd cynllunio'r ddarpariaeth hon ymlaen llaw ac nid yw'n dibynnu ar niferoedd gweithlu.

81 – Derbyn ymwelwyr

Ni ddylai lefelau fod yn berthnasol yn y senario hwn. O dan gynlluniau iaith, mae nifer o gyrff wedi bod yn cynllunio'n fwriadus yn y cyd-destun hwn oherwydd pwysigrwydd yr ymwneud hwn â'r cyhoedd. Mae angen i bwynt cyswllt cyntaf rhwng y corff a'r unigolyn fod yn gallu ymdrin ag ymwelwyr yn Gymraeg er mwyn galluogi'r corff i roi cynnig rhagweithiol ystyrlon i'r unigolyn.



1.3 Persbectif sefydliad

Ystyr cyflenwi gwasanaeth yw darparu buddiant i'r cyhoedd. Gwelir bod safonau sy'n ymwneud â chynnig gwasanaeth neu ddarpariaeth o ryw fath i'r dinesydd wedi'u geirio o bersbectif y sefydliad.

“os nad yw'r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'r alwad, rhaid i'r dewisiadau a gynigir i unrhyw un oedd am drafod ei alwad yn Gymraeg gynnwys ysgrifennu at y sefydliad” (20)

Yn ogystal ag unrhyw aneglurder a berthyn i rai safonau gallai'r ffaith bod safon wedi'i geirio ar sail cyfundrefnau mewnol sefydliad yn hytrach nag ar sail anghenion y cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu ddadurthio defnyddwyr yn gyffredinol a gwrthio rhai defnyddwyr sy'n fregus neu'n anodd eu cyrraedd ymhellach i'r cyrion.

Yn ogystal, ystyriwyd a yw'r safonau yn cymryd agwedd niwtral tuag at iaith weinyddol a gweithredol sefydliad. Gwelir bod nifer o'r safonau yn rhagdybio bod y sefydliad yn gweinyddu a gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg fel norm.

“Pan fydd sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar ffurflen ddwyieithog a anfonir drwy'r post neu e-bost at berson y mae'n hysbys mai Cymraeg yw ei ddewis iaith, rhaid rhoi'r wybodaeth honno yn Gymraeg hefyd.” (73)

“Rhaid i unrhyw ffurflen a gyhoeddir yn Saesneg gael ei chyhoeddi hefyd yn y Gymraeg...” (70)

Dylid gwirio pob safon i sicrhau eu bod yn niwtral tuag at iaith weinyddol pob sefydliad.

Safonau absennol - Nid yw'r safonau hyn yn gosod dyletswydd ar sefydliad i ganfod beth yw dewis iaith person a ddaw i gyswllt â hwy. Serch hynny mae nifer o safonau eraill (e.e. 3, 4, 34, 35, 37, 38, 40, 41, 48) yn gosod dyletswyddau sy'n amodol ar ymwybyddiaeth staff am ddewis iaith person. Nid yw'n eglur sut ddylai aelodau staff fod yn ymwybodol am ddewis iaith person wrth benderfynu gweithredu'n unol â safonau neu beidio. Gall fod yn anodd gweithredu'r safonau hyn felly a rheoleiddio cydymffurfiaeth â hwy.